

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Cyllid

Adroddiad ar Oblygiadau Ariannol y Mesur  
Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer  
Gofalwyr (Cymru)

Mai 2010



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol **[www.cynulliadcymru.org](http://www.cynulliadcymru.org)**

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8618  
Ffacs: 029 2089 8021  
E-bost: [Fin.Comm@wales.gsi.gov.uk](mailto:Fin.Comm@wales.gsi.gov.uk)

Mae gwybodaeth am y Pwyllgor, ei Aelodau, ei gylch gwaith a chyhoeddiadau blaenorol ar gael yn: mewnosod y linc berthnasol at dudalen y Pwyllgor ar y wefan:  
**<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-fin-home.htm>**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010  
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Adroddiad ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru)

## Cyflwyniad

1. Mae Rheol Sefydlog 14.2 yn nodi:

*Caiff y Pwyllgor [Cyllid] hefyd ystyried y canlynol ac, os yw'n gweld yn dda, gyflwyno adroddiad arnynt:*

*gwybodaeth ariannol yn y memoranda esboniadol sy'n cyd-fynd â Mesurau Cynulliad arfaethedig;*

2. Bu'r Pwyllgor yn ystyried y **Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru)** yn ei gyfarfod ar 29 Ebrill 2010. Cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Cyllid gan Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol a'r Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig a atebodd gwestiynau Aelodau. Bu aelodau hefyd yn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd gan Bwyllgor y Mesur yn ystod ei ymgynghoriad ar y Mesur arfaethedig.

## Cefndir

3. Gosodwyd y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) a Memorandwm Esboniadol (ME) i gyd-fynd ag ef gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 25 Ionawr 2010. Byddai'r Mesur hwn y mae'r Llywodraeth yn ei gynnig yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu i gyflwyno gofyniad newydd ar yr 'awdurdodau perthnasol' yng Nghymru i weithio mewn partneriaeth i baratoi, cyhoeddi a gweithredu strategaeth ar y cyd o ran gofalwyr. Yn y cyd-destun hwn, y diffiniad o 'awdurdodau perthnasol' yw cyrff GIG ac awdurdodau lleol. Bydd y strategaeth yn darparu ar gyfer rhoi gwybodaeth a chynghor i ofalwyr ac ar gyfer ymgynghori effeithiol yr awdurdod perthnasol â gofalwyr wrth benderfynu ar wasanaethau i'w darparu i ofalwyr neu'r person y maent yn gofalu amdano, neu ar gyfer y naill neu'r llall ohonynt.
4. Dywed y Memorandwm Esboniadol<sup>1</sup> y byddai awdurdodau lleol a'r GIG yng Nghymru'n ysgwyddo costau gweithredu a gweinyddu mewn perthynas â'r Mesur arfaethedig.

## Awdurdodau Lleol

5. Dywed y Memorandwm Esboniadol<sup>2</sup> fod gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ledled Cymru drefniadau eisoes ar waith i ddarparu gwybodaeth i ofalwyr ac i ymgynghori â nhw. Efallai y

---

<sup>1</sup> Y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 8.6

<sup>2</sup> Ibid

bydd angen datblygu ac atgyfnerthu'r trefniadau presennol hyn ymhellach mewn rhai meysydd. O ran swyddogaethau eraill awdurdodau lleol, fel tai ac addysg, mae'n bosibl bod gan rai awdurdodau drefniadau o'r fath ar waith, ond eto bydd angen datblygu ac atgyfnerthu'r rhain ymhellach neu, mewn rhai achosion, eu datblygu a'u rhoi ar waith o'r newydd.

## Y GIG

6. O ran y GIG yng Nghymru, dywed y ME<sup>3</sup> bod yna lawer o'u meysydd gwasanaeth sydd heb unrhyw drefniadau datblygedig i ddarparu gwybodaeth ac i ymgynghori â gofalwyr, neu mae'r trefniadau sydd ar waith yn rhai nad ydynt wedi'u datblygu'n ddigonol. Bydd llawer o feysydd gwasanaeth y GIG yn cychwyn o'r cychwyn. Y cam cyntaf, o bosibl, i rai sefydliadau'r GIG fydd dechrau trafod â gofalwyr a'u cynrychiolwyr i gadarnhau beth yw eu blaenoriaethau o ran yr wybodaeth a ddarperir a'r lefel a'r math o ymgynghori sydd ei eisiau ar ofalwyr.

## Asesu costau

7. Mae'r ME sy'n cyd-fynd â'r Mesur arfaethedig yn datgan y byddai awdurdodau perthnasol yng Nghymru'n ysgwyddo costau gweinyddu a chydymffurfio mewn perthynas â'r Mesur arfaethedig. Yr amcangyfrif yw y bydd y rhain yn £5.8 miliwn dros dair blynedd.

8. Mae'r amcangyfrifon hyn wedi'u seilio ar ddull cynyddrannol o weithredu'r strategaethau:

- Blwyddyn 1 – cyfnod cychwynnol yn datblygu'r strategaethau, gan ymgynghori â gofalwyr a'u cynrychiolwyr. Bydd yn rhaid i Weinidog Cymru gadarnhau eu bod yn fodlon bod strategaethau'n cydymffurfio â gofynion y Mesur arfaethedig;
- Blwyddyn 1 i 2 – paratoi ar gyfer gweithredu'r strategaethau. I gynnwys datblygu a dosbarthu'r wybodaeth briodol, diwygio canllawiau a gweithdrefnau sy'n bodoli i awdurdodau ac ymgymryd â hyfforddi staff; a
- Blwyddyn 2 i 3 – dechrau gweithredu'r strategaethau yn ystod blwyddyn 2 er mwyn iddynt fod ar waith yn llawn o flwyddyn 3 ymlaen.

9. Mae'r ffigur o £5.8m yn deillio o ddadansoddiad o'r elfennau amrywiol a fydd yn rhan o weithredu'r strategaeth. Daw'r rhain mewn 2 'haen':<sup>4</sup> Bydd Haen 1 (blwyddyn 1) yn ymwneud â gwasanaethau y bydd gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a'r GIG yn eu darparu'n uniongyrchol. Bydd Haen 2 (o flwyddyn 3) ar gyfer meysydd

---

<sup>3</sup> Y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru), Memorandwm Esboniado, para 8.7

<sup>4</sup> Y Pwyllgor Cyllid FIN(3)-07-10 papur 3, *Y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) – Gwybodaeth bellach gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol*, 29 Ebrill 2010

gwasanaeth eraill fel gwasanaethau addysg awdurdodau lleol a gwasanaethau ar gontract i'r GIG. Rhoddir dadansoddiad o'r costau yn y tabl isod:

### Dadansoddiad o'r costau fesul pennawd cyffredinol a blwyddyn

	£000au			
	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Cyfanswm
<b>Haen 1</b>	<b>800-970</b>	<b>1,600-1,900</b>	<b>2,300-2,850</b>	<b>4,700-5,720</b>
Gweithio mewn partneriaeth	250-300	250-300	250-300	750-900
Seilwaith cefnogi	400-500	..	850-1,100	..
Hyfforddiant	0	300-400	550-650	850-1,050
Datblygu a dosbarthu gwybodaeth	70-90	..	450-600	..
Gofalwyr ifanc	80	150	200	430
<b>Haen 2</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>300-450</b>	<b>300-450</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>800-970</b>	<b>1,600-1,900</b>	<b>2,600-3,300</b>	<b>5,000-6,170</b>

**Ffynhonnell:** Papur i'r Pwyllgor oddi wrth y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru<sup>5</sup>

Mae .. yn dynodi nad oes data ar gael

Nid yw ffigyrau ar gyfer Seilwaith cefnogi a Datblygu a dosbarthu gwybodaeth wedi'u darparu ar gyfer blwyddyn 2. Fodd bynnag, o ystyried y cyfansymiau a awgrymir ar gyfer blwyddyn 2, gellir gweld bod y costau cyfunol ar gyfer y meysydd hyn rhwng £900,000 a £1,050,000.

10. Dywed y ME bod yna 29 o awdurdodau perthnasol yng Nghymru (22 awdurdod lleol a 7 bwrdd iechyd lleol) a bod y costau hyn yn dod i £200,000 fesul awdurdod dros dair blynedd. I grynhoi, dangosir y sefyllfa gyffredinol yn y tabl isod.

### Amcangyfrif o'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Mesur arfaethedig

£000au		
Blwyddyn	Cyfanswm	Fesul Awdurdod
1	900	31
2	1,700	59
3	3,200	110
<b>Cyfanswm</b>	<b>5,800</b>	<b>200</b>

11. Yn ei thystiolaeth lafar<sup>6</sup>, dywedodd y Dirprwy Weinidog mai'r disgwyl yw y bydd y gofyniad ariannol yn gwastatáu ar ryw £3.2m ar ôl y tair blynedd cyntaf.

### Dibynadwyedd amcangyfrifon

12. Roedd y Pwyllgor Cyllid yn pryderu bod pen uchaf yr amcangyfrif yn nodi ffigur o £6.17m ac os byddai gwir gostau ar ben uchaf yr

<sup>5</sup> Y Pwyllgor Cyllid FIN(3)-07-10 papur 3, Y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) – Gwybodaeth bellach gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, 29 Ebrill 2010

<sup>6</sup> Cofnod y Trafodion p196, 29 Ebrill 2010

amrediad ni fyddai digon o gyllid wedi'i neilltuo ar gyfer y polisi. Cydnabu'r Dirprwy Weinidog y pryder gan ddweud<sup>7</sup> bod yna rywfaint o ansicrwydd ynglŷn ag unrhyw amcangyfrifon a'u bod yn bwrpasol wedi peidio â mynd i ben uchaf yr amrediad.

## **Gofalwyr ifanc**

13. Mewn llythyr dilynol at y Pwyllgor Cyllid, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y bydd arian ychwanegol ar gael ar gyfer strategaethau ar gyfer gofalwyr ifanc ac y byddai hwn yn £80,000, £150,000 a £200,000 ym mhob blwyddyn, ar ben y £5.8m sydd wedi'i nodi ar gyfer y brif raglen.

## **Ffynhonnell ariannu**

14. Er nad yw lefel yr ariannu y mae galw amdano'n uchel yng nghyd-destun cyllidebau cyffredinol GIG a Llywodraeth Leol, roedd y Pwyllgor Cyllid yn pryderu ei bod yn bosibl nad arian 'newydd' bydd hwn ac y byddai ariannu ar gyfer y Mesur yn dod ar draul ariannu rhaglenni eraill. Yn eu tystiolaeth i Bwyllgor Deddfwriaethol 5, mynegodd Conffederasiwn GIG Cymru<sup>8</sup> a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<sup>9</sup> fel ei gilydd y farn na ddylai ariannu ar gyfer y Mesur fod ar draul gwasanaethau'r rheng flaen – yn enwedig ar adeg pan mae cwtdgi ar grantiau canolog eraill.

15. Trafododd y Pwyllgor Cyllid ffynhonnell yr ariannu â'r Dirprwy Weinidog a gofynnodd<sup>10</sup> p'un a yw'r £5.8m yn arian newydd ynteu a fydd yn cael ei ddargyfeirio o ddarpariaeth sy'n bodoli o fewn y gyllideb. Dywedodd y Dirprwy Weinidog<sup>11</sup> y sicrheir y £5.8m o'r gyllideb iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mewn llythyr dilynol<sup>12</sup> at y Pwyllgor, dywedodd y Dirprwy Weinidog y darperir ar gyfer y £0.9m ar gyfer blwyddyn 1 o fewn y gyllideb ar gyfer gweithredu'r polisi gofalwyr presennol ac y darperir ar gyfer yr ariannu ym mlynnyddoedd 2 a 3 o gyllidebau lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n bodoli. Aeth y Dirprwy Weinidog ymlaen i ddweud mai arian nad yw wedi'i ddyrannu o'r blaen yw hwn, ac na fydd angen dargyfeirio adnoddau ar draul darpariaeth sy'n bodoli rhywle arall. Nododd y Pwyllgor yr ymateb hwn ond ni wnaeth unrhyw ymholiadau pellach ynglŷn â pham fod yna arian dros ben yn y gyllideb lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

---

<sup>7</sup> Cofnod y Trafodion p215-217, 29 Ebrill 2010

<sup>8</sup> Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 LC5(3)-04-10 papur 1, *Tystioaeth gan Gonffedarasuwn GIG Cymru*, 3 Mawrth 2010

<sup>9</sup> Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 LC5(3)-05-10 papur 1, *Tystioaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru*, 10 Mawrth 2010

<sup>10</sup> Cofnod y Trafodion p170, 29 Ebrill 2010

<sup>11</sup> Cofnod y Trafodion p171, 29 Ebrill 2010

<sup>12</sup> Y Pwyllgor Cyllid FIN(3)-08-10 papur 3, *Y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) – Ymateb dilynol gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol*, 13 Mai 2010

## Dosbarthu ariannu

16. Cafodd y Pwyllgor hi'n anodd deall yr union fecanweithiau ar gyfer dosbarthu ariannu i awdurdodau. Ym mhapur y Dirprwy Weinidog at y Pwyllgor<sup>13</sup>, dywed mai ei bwriad yw dynodi sefydliad GIG i fod yn awdurdod arweiniol dan adran 5(3) y Mesur arfaethedig, ac yna dosbarthu'r adnoddau ychwanegol hyn fel grant uniongyrchol i'r awdurdod hwnnw. Bydd yr awdurdod arweiniol wedyn yn gyfrifol am drosglwyddo adnoddau'r grant i unrhyw sefydliad arall a fydd hefyd yn gorfod talu costau dan y strategaethau. Bydd hyn yn cynnwys yr awdurdodau lleol ac unrhyw sefydliad arall. Dywedodd mai ei bwriad yw defnyddio'r trefniadau arferol ar gyfer dosbarthu adnoddau'r GIG i ddosbarthu'r adnoddau ychwanegol hyn rhwng sefydliadau'r GIG.

17. Yn ei thystiolaeth lafar, awgrymodd y Dirprwy Weinidog drefniant mwy hyblyg a dywedodd<sup>14</sup> y bydd yr adnoddau'n cael eu dyrannu trwy gyfrwng grantiau i awdurdodau arweiniol. Dywedodd ei bod yn rhagweld mai'r GIG fyddai'r awdurdod arweiniol yn y mwyaffrif o achosion. Aeth y Dirprwy Weinidog ymlaen i ddweud<sup>15</sup> y bydd yr arian yn cael ei gyfrifo fesul pen, a'i ddosbarthu fel grantiau i fyrddau iechyd lleol os mai nhw fydd y cyrff a fydd yn arwain y strategaethau, ac yna'i ddosbarthu i'r rheini sy'n cyfrannu at y strategaeth. Dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd<sup>16</sup> mai'r disgwyl yw y bydd y gofynion ariannol yn gwastatáu ar ôl y tair blynedd cyntaf, pan fydd y strategaethau wedi'u sefydlu a bydd y gwaith datblygu wedi'i gwblhau. Fel arfer, bydd yn cael ei drosglwyddo i'r grant cynnal refeniw bryd hynny.

18. Nododd y Pwyllgor y byddai trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw'n berthnasol i'r awdurdodau lleol yn unig ac mae'n cymryd, pan mai awdurdod iechyd yw'r awdurdod arweiniol, y byddai'r arian yn cael ei drosglwyddo i'r broses ddyrannu arferol ar gyfer y sector hwnnw. Nid oedd disgrifiad y Dirprwy Weinidog o'r dull o ddosbarthu'r ariannu'n gwbl glir, ac mae'r Pwyllgor Cyllid yn pryderu bod yna ryw faint o ansicrwydd o hyd ym meddwl y Llywodraeth ynglŷn â sut bydd yn gwneud hyn. **Mae'n gofyn i'r Gweinidog adael iddo gael nodyn yn egluro hyn.**

19. Yng nghyd-destun y mesur penodol hwn, ni ddaeth y Pwyllgor Cyllid i farn ynglŷn â'r mecanwaith ariannu fel y cyfryw nac ynglŷn â ph'un ai byrddau iechyd lleol ynteu awdurdodau lleol ddylai fod yn awdurdod arweiniol nac, fel y mae'r papurau'n awgrymu, pa un fyddai fwyaf priodol mewn maes penodol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor

---

<sup>13</sup> Y Pwyllgor Cyllid FIN(3)-07-10 papur 3, *Y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) – Gwybodaeth bellach gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol*, 29 Ebrill 2010

<sup>14</sup> Cofnod y Trafodion p200, 29 Ebrill 2010

<sup>15</sup> Ibid

<sup>16</sup> Cofnod y Trafodion p196, 29 Ebrill 2010

Cyllid yn pryderu ynglŷn â chwtogi ar ddyraniadau mewn rhai meysydd a allai ddigwydd ym mlwyddyn 3 pan fydd mecanwaith ariannu mwy cyffredinol yn disodli'r fformiwla fesul pen. Mae pryderon ynglŷn â newid o'r math hwn, ac effaith aflonyddol hyn ar wasanaethau, wedi'u codi â'r Pwyllgor yn rheolaidd yn ystod ei ymholiadau. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gofyn i'r Dirprwy Weinidog sicrhau nad yw unrhyw fecanweithiau a ddefnyddir yn arwain at newidiadau sydyn mewn ariannu gan y gallai hyn gael effaith ddifrifol ar lwyddiant cyflenwi'r Mesur yn y tymor hir.

20. Roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu bod y dull arfaethedig, i bob golwg, yn rhedeg yn groes i'r polisi cyffredinol o geisio datblygu dulliau integredig, syml o ariannu gwasanaethau o'r fath; yn achos gofawyr, ystyrir yn gyffredinol mai awdurdodau lleol oedd yr asiantaeth briodol ar eu cyfer. Yn ei llythyr<sup>17</sup> at y Pwyllgor Cyllid, atgyfnerthodd y Dirprwy Weinidog y pwynt trwy ddweud bod cyfanswm o £9.4 yn mynd i awdurdodau lleol ar ffurf grantiau ar gyfer gofawyr, ond mai £0.343m yn unig oedd cyfanswm yr ariannu yr oedd y GIG yn ei gael ar gyfer gofawyr. Er bod y Pwyllgor Cyllid yn gallu deall rhesymeg edrych yn bragmatig ar y sefyllfa ym mhob maes, mae'n annog y Dirprwy Weinidog i sicrhau bod y dull a ddilyniir yn gyson â'r polisiau ehangach o ran ariannu gwasanaethau a gyflenwir yn lleol.

## Trafodaeth

21. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cydnabod ac yn croesawu'r ffaith bod yr amcangyfrifon o'r costau wedi'u seilio ar ddadansoddiad gofalus o'r ffactorau amrywiol sy'n cyfrannu atynt. Mae'n nodi bod rhai elfennau o'r rhain yn cynnwys rhywfaint o farn a'u bod wedi'u seilio ar brofiadau o'r Alban nad ydynt yn gwbl gymharol. Mae hyn yn dangos ei bod yn anodd iawn amcangyfrif yn fanwl gywir, ar hyn o bryd, lefel yr ariannu y bydd ei angen i weithredu'r mesur hwn yn llwyddiannus. Bydd angen i'r Llywodraeth gadw hyn mewn cof wrth baratoi cyllidebau yn y dyfodol. Serch hynny, mae'n ymddangos bod y costau'n rhesymol ac mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi nad yw ymgylgoreion, ac yn enwedig Conffederasiwn GIG Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wedi herio'r amcangyfrifon.

22. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi bod ffigyrau'r Llywodraeth yn cynnwys risg diffyg posibl mewn ariannu, ond mae o'r farn bod hyn yn ffordd resymol ymlaen ac, o fewn manwl gywirdeb y ffigyrau, ei bod yn debygol bod y bwlch yn ddibwys.

23. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn croesawu'r ariannu ychwanegol ar gyfer Gofawyr Ifanc.

---

<sup>-17</sup> Y Pwyllgor Cyllid FIN(3)-07-10 papur 3, *Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofawyr (Cymru) – Gwybodaeth bellach gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol*, 29 Ebrill 2010



24. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi y daw'r ariannu ar gyfer y Mesur o gronfeydd sydd heb eu dyrannu o fewn cyllideb lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n bodoli.

25. Yn olaf, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi ceisio eglurder ynglŷn ag agweddau ar y ffordd o ddosbarthu'r ariannu ac mae'n meddwl tybed a oes diffyg eglurder oherwydd bod yna rywfaint o ansicrwydd ynglŷn â sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu bwrw ymlaen â hyn. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi'r ffaith y dangosir y gellid dosbarthu'r ariannu trwy'r GIG mewn rhai meysydd a thrwy awdurdodau lleol mewn eraill. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod hyn, i bob golwg, yn rhedeg yn groes i amcan y polisi ehangach o integreiddio a symleiddio mecanweithiau ariannu ac o ddefnyddio llwybr sengl pan mae gwasanaethau'n rhychwantu'r GIG a llywodraeth leol. Yn achos gofalwyr, mae'r Pwyllgor ar ddeall mai awdurdodau lleol ddylai arwain.

26. Mae'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn annog y Llywodraeth i sicrhau na fydd pontio rhwng newidiadau yn y mecanwaith ariannu – er enghraifft o fformiwla fesul pen i 'fformiwla' ariannu mwy cyffredinol – yn effeithio'n andwyol ar awdurdodau. Yn anad dim, dylai sicrhau bod byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol yn cael eu hysbysu mewn da bryd am unrhyw newidiadau yn sgil hyn, a'u bod yn cael digon o amser i allu cynllunio ar eu cyfer, er ei fod yn cydnabod mai gweinyddwyr y dyfodol fydd yn gyfrifol am benderfynu beth fydd yn digwydd ar ôl blwyddyn 3.

## **Casgliad**

27. Yn amodol ar y sylwadau a nodir uchod, nid oes gan y Pwyllgor Cyllid unrhyw wrthwynebiad ar sail ariannol i'r Mesur arfaethedig.

**Angela Burns**

**Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid**